


Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant.

Mae'r wybodaeth yma gan **Gomisiynydd Plant Cymru**.



Mae'n ymwneud â **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** a sut y gallant helpu plant ag **anghenion cymhleth**.

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru.


1	_____
2	_____
3	_____
4	_____
5	_____

Mae'r geiriau mewn **glas** yn cael eu disgrifio yn y rhestr o eiriau.


Efallai byddai'n ddefnyddiol darllen y rhestr o eiriau yn gyntaf.



Beth yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol?



Mae'r Llywodraeth wedi creu 7 bwrdd partneriaeth rhanbarthol yng Nghymru.



Mae nhw'n tynnu gwasanaethau at eu gilydd fel meddygon a gweithwyr cymdeithasol i helpu plant sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a phroblemau eraill.




Dyma'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys




?!

Y problemau wnaeth Sally ddarganfod




Dyw **gwasanaethau** ddim yn gweithio digon gyda'u gilydd i wneud yn siwr fod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael yr help sydd angen arnynt ar yr amser cywir.



Dyw gwasanaethau ddim yn siarad nac yn gwrando digon ar blant a phobl ifanc.






Anghenion cymhleth

Mae pobl wedi dweud wrth rai plant a'u teuluoedd bod eu anghenion yn rhy gymhleth i un gwasanaeth ddatrys.


Mae eraill wedi clywed fod eu problemau ddim digon difrifol i dderbyn help.



Dyw gwasanaethau ddim yn dda iawn yn egluro beth mae nhw'n gwneud a sut gall plant a phobl ifanc gael help.



Y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gwneud gwaith da:




Caerdydd a'r Fro

Mae nhw'n gwneud cynlluniau arbennig i rai plant a phobl ifanc sy'n cael problemau adref.

Mae nhw'n gweithio gyda'r teulu cyfan i greu cynllun i helpu.

Pwrpas y cynllun yw i wella'r problemau adref.




Cwm Taf Morgannwg

Mae nhw'n gwrando ar blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.

Mae nhw'n defnyddio beth mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym i wella eu cynlluniau i helpu pobl.





Gwent

Mae nhw'n cael cyfarfod unwaith yr wythnos. Yn y cyfarfod mae nhw'n siarad am y plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth.

Mae nhw'n gwneud yn siwr fod plant a phobl ifanc yn cael yr help sydd angen arnynt.

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael help os oes angen help arnynt.




Gogledd Cymru

Mae nhw'n cynllunio lleoedd arbennig i rai plant a phobl ifanc sy'n drist iawn.

Yn y lleoedd arbennig yma, mae plant a phobl ifanc yn cael help yn gyflym.

Mae'r lleoedd arbennig yma yn helpu plant i gynllunio eu gofal ar gyfer y dyfodol.






Powys

Mae nhw'n cael sesiynnau arbennig mewn ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u lles.


Mae nhw'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n gorbryderu neu'n teimlo straen arholiadau mewn grwpiau neu fel unigolion os yw hynny'n well gyda'r plentyn neu'r person ifanc.



Gorllewin Morgannwg

Mae ganddyn nhw nyrsys iechyd meddwl mewn tимоedd gofal cymdeithasol.


Mae'r nyrsys iechyd meddwl yn gwneud yn siŵr bod oedolion sy'n gofalu am blant yn gwybod sut i edrych ar ôl eu hiechyd meddwl hefyd.



Gorllewin Cymru

Mae ganddyn nhw berson ifanc sydd ag anableddau dysgu fel aelod o grŵp arbennig, fel ei bod nhw'n gallu cael dweud eu dweud.

Mae'r grŵp arbennig yma yn ceisio gwella pethau i bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu.




Coronafeirws



Ar ôl i ni ymweld â phob Bwrdd, dechreuodd y Coronafeirws. Roedd yn rhaid i ni gyd aros gartref.




Roedd yn rhaid i wasanaethau gau. Nid yw rhai pobl wedi gallu gweld y doctor neu gweld rhywun arall sydd yn gallu helpu nhw.



Erbyn hyn mae'n bwysig iawn bod pob Bwrdd yn sefydlu ffordd i sicrhau bod pawb yn gallu cael yr help sydd eu angen arnynt.




Beth mae Sally am i bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol wneud



Mae Sally eisiau i bob rhanbarth ddysgu wrth eu gilydd.


Mae hi'n credu y byddai hyn yn gwneud pethau'n well i holl blant Cymru.

Mae angen i hyn ddigwydd yn gyflym.



Mae Sally eisiau i bob rhanbarth gael lleoedd arbennig. Byddai'r lleoedd arbennig yma yn cynnwys yr help cywir mewn un lle.

Byddai'r lleoedd arbennig yma ar gael i blant gael help os oes ganddyn nhw broblemau.




Mae Sally eisiau i'r rhanbarthau gwella sut mae nhw'n siarad ac yn gwrando ar blant â'r rhieny sy'n gofalu amdanynt.



Mae Sally eisiau i ranbarthau egluro'n well beth mae nhw'n gwneud fel bod plant a phobl ifanc yn gwybod am eu gwaith.




Mae Sally eisiau gwneud yn siwr fod yr arian yn mynd i'r lleoedd cywir i helpu plant a phobl ifanc cyn gynted â phosibl.




Mae Sally eisiau i'r rhanbarthau wneud yn siwr fod pobl ifanc yn cael y gofal sydd angen arnynt wrth iddyn nhw droi yn oedolion.



Beth mae'r dull "dim drws anghywir" yn golygu?



Pan fod plant a phobl ifanc yn gofyn am help, roedd rhai gwasanaethau yn dweud eu bod nhw'n 'cnocio ar y drws anghywir'. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth ddim yn credu ei fod yn medru helpu.




Mae Sally eisiau i hyn newid.

Mae'r "dim drws anghywir" yn golygu dylai plant a phobl ifanc dderbyn yr help sydd angen arnynt pan maent yn gofyn am help.




Beth fydd Sally'n gwneud?




Fe fydd Sally'n ymweld â phob bwrdd partneriaeth rhanbarthol eto.

Fe fydd Sally'n gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i wella pethau.






Rhestr o eiriau




Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'r llywodraeth wedi creu 7 bwrdd partneriaeth rhanbarthol yng Nghymru. Mae nhw'n gyfrifol am wneud yn siwr fod gwasanaethau fel y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd



Gwasanaethau

Mae gwahanol wasanaethau yn cynnig cefnogaeth gwahanol. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu darparu gyda'r llywodraeth fel y gwasanaeth iechyd (NHS) a gwasanaethau cymdeithasol (social services).




Gofynion cymhleth

Mae 'gofynion cymhleth' yn golygu fod gan blentyn neu pherson ifanc mwy nag un salwch neu anabledd ar yr un pryd. Gall hyn gynnwys problemau **iechyd meddwl** ac **anabledd dysgu** a gall hyn olygu gofynion iechyd eraill hefyd.




Iechyd meddwl



Mae iechyd meddwl yn golygu cael meddyliau a theimladau da am dy hun. Mae iechyd meddwl yn golygu medru ymdopi gyda bywyd bob dydd ac ymdopi pan fod pethau'n mynd o'i le.

Anableddau dysgu



Mae anabledd dysgu yn golygu y gwahaniaeth ar sut mae ymennydd person yn gweithio. Os oes gan rywun anabledd dysgu, fe fydd yr anabledd hynny gyda nhw am oes. Oes oes gan rywun anabledd dysgu mae'n golygu y gall y person hynny gymryd yn hirach i gofio gwybodaeth neu i ddysgu sgiliau newydd.

Comisiynydd Plant Cymru



Mae Comisiynydd Plant Cymru yn helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru ddysgu am eu hawliau. Mae'r Comisiynydd yn gwrando ar blant a phobl ifanc ac am beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r Comisiynydd yn dweud wrth bobl fod hawliau plant mor bwysig ac yn edrych ar sut mae penderfyniadau y mae gwasanaethau'n cymryd yn effeithio ar hawliau plant yng Nghymru.

